Beibl i Blant
yn cyflwyno

Addewid Duw i Abraham

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

addaswyd gan: M. Maillot; Tammy S.
Alastair Paterson
Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Amser maith ar ôl y Dilyw, dechreuodd pobl y ddaear wneud cynlluniau.

“Fe adeiladwn ni ddinas fawr gyda thŵr uchel i gyrraedd y nefoedd,” medden nhw.

“Gadewch i ni fyw gyda’n gilydd am byth.” Roedd pawb yn siarad yr un iaith.


Roedd Duw am i bobl fyw ar hyd a lled y byd a greodd. Felly dyma Fe'n gwneud rhywbeth arbennig.

Yn sydyn, dechreuodd gwahanol grwpiau o bobl siarad yn wahanol. Rhoddodd Duw ieithoedd newydd iddyn nhw.

Aeth y bobl oedd yn siarad yr un iaith i ffwrdd i fyw gyda'i gilydd.

Efallai bod nhw'n ofni pobl oedd yn siarad yn wahanol iddyn nhw. Dyma sut wnaeth Duw i bobl fyw mewn

gwahanol wledydd.

Babel oedd enw'r ddinas y symudon nhw allan ohoni – ystyr yr enw ydy Dryswch.

Blynyddoedd yn ddiweddarach, siaradodd Duw gyda dyn o'r enw Abram mewn lle o'r enw Ur y Caldeaid.

“Dw i am i ti adael y wlad hon,” gorchmynnodd Duw. “Dos i’r wlad rydw i’n ei dangos i ti.”

Fe wnaeth Abram ufuddhau.
Arweiniodd Duw ef i wlad Canaan.
Aeth ei wraig Sarai a'i nai Lot gydag e.



Yng ngwlad Canaan,
daeth Abram a Lot
yn gyfoethog.



Roedd ganddyn nhw lawer iawn o wartheg. Doedd dim digon o dir pori i'r holl anifeiliaid. Fe wnaeth gweithwyr Lot gweryla gyda gweithwyr Abram.

“Does dim angen helynt,” meddai Abram. “Fe wnawn ni wahanu. Lot, cei di’r dewis cyntaf o dir.”

Dewisodd Lot ddyffryn
mawr, ffrwythlon lle
roedd dinasoedd
a phentrefi.

Roedd yn edrych yn dda.
Ond roedd y dinasoedd
yn llefydd drwg iawn.

Ar ôl i Lot adael,
siaradodd Duw eto
gydag Abram.


“Rydw i’n rhoi gwlad Canaan i gyd i ti ac i dy blant, a hynny am byth.”

Doedd dim plant gan Abram a Sarai. Sut allai Duw gadw'r addewid fawr hon?

Daeth tri dyn oddi wrth Dduw i weld Abram a Sarai. “Fe gewch chi fabi cyn hir,” medden nhw.

Dechreuodd Sarai chwerthin.
Doedd hi ddim yn credu neges Duw.
Roedd hi'n naw deg mlwydd oed.

Dywedodd Duw wrth
Abram ei fod yn mynd i newid ei enw
i Abraham a Sara fyddai enw Sarai.


Dywedodd Duw hefyd wrth Abraham ei fod am ddinistrio dinasoedd drwg
Sodom a Gomorra.

Roedd nai Abraham, Lot yn byw gyda'i deulu yn Sodom.

Pan glywodd Lot am rybudd Duw, roedd e'n ei gredu, ond gwrthododd gwŷr ei ferched adael Sodom.

Dyna drist!
Doedden
nhw ddim
yn credu
Gair Duw.

Dim ond Lot a'i ddwy ferch ddihangodd yn ddiogel.

Syrthiodd tân a brwmstan ar y dinasoedd drwg.

Gwrthododd gwraig Lot wrando ar rybudd Duw ac edrychodd yn ôl wrth iddi ddianc.



Cafodd ei throi yn golofn o halen.

Cadwodd yr
ARGLWYDD
ei addewid i
Abraham
a Sara.

Fe gawson nhw blentyn er eu bod nhw'n hen iawn, yn union fel roedd Duw wedi ei addo. Roedden nhw mor hapus pan gafodd Isaac ei eni!

Efallai
bod Abraham
hefyd yn cofio
bod Duw
wedi ...

... addo rhoi gwlad Canaan iddo ef a'i ddisgynyddion am byth.

Byddai Duw
yn cadw'r
addewid hwnnw
hefyd. Mae Duw
bob amser
yn
cadw ei
addewidion.

Addewid Duw i Abraham

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 11 - 21

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16